# Enw'r Ysgol: LLANELLTYD

| Addysg Grefyddol |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda yn y gwersi Addysg Grefyddol ar draws yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn medru adalw dysgu blaenorol yn briodol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau llafar disgyblion eraill. Maent yn cyfathrebu yn gynyddol gywir a hyderus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad am eu gwaith yn hyderus yn y Gymraeg, gan fynegi eu hunain yn glir a chywir. Enghraifft dda o'u medrau llafar yw eu hapêl radio ar-lein i helpu pobl Nepal wedi'r trychineb diweddar.

Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u hamgylch ac agweddau o grefydd. Erbyn diwedd Cyfnod Sylfaen mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn medru mynegi barn eu hunain a theimladau ac yn dechrau sylweddoli fod ystyr i symbolau crefyddol a defnyddio geirfa grefyddol mewn modd addas.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion CA2 yn medru disgrifio ac esbonio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a ymchwylir iddynt. Erbyn diwedd CA2 mae llawer o'r disgyblion yn medru esbonio sut mae eu teimladau, gweithredoedd a'u barnau yn effeithio ar eu bywydau ac mae'r mwyafrif ohonynt yn medru defnyddio ystod o eirfa grefyddol addas.

**Materion i gael sylw**

Sicrhau fod disgyblion yn derbyn digon o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu drwy gyfrwng themau crefyddol. Bydd hyn yn fodd i dargedu cynnydd yn nifer y disgyblion sydd yn cyrraedd lefel 5 yn Addysg Grefyddol ar ddiwedd CA2.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

Darperir cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n sicrhau cydbwysedd, ehangder, dilyniant a chydlynedd priodol trwy gynnig profiadau dysgu llwyddiannus sydd yn cwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm 2008 ac Addysg Grefyddol yn unol a'r maes llafur cytûn lleol. Mae'r athro CA2 yn cynllunio ar y cyd ag athrawon CA2 y dalgylch fel rhan o Rwydwaith athrawon er mwyn defnyddio arbenigeddau athrawon eraill y dalgylch mewn pynciau penodol sydd hefyd yn sicrhau cysondeb a dilyniant rhwng disgyblion CA2 a'r ysgol uwchradd.

Yn y Cyfnod Sylfaen mae addysg grefyddol yn rhan o'r cynlluniau gan sicrhau darpariaeth barhaus ac estynedig sydd gyda ffocws.

Yn y ddau gyfnod allweddol mae'r athrawon yn cynllunio gan ymateb i ofynion Maes Llafur Cytun. Ar draws yr ysgol mae'r cynllunio gan sicrhau cyfleoedd thematig trwy gyfrwng y Cwricwlwm Cymreig sydd yn galluogi digyblion i werthfawrogi arwyddocad, gwerth ac effaith treftadaeth Gristnogol gyfoethog. Mae'r cynlluniau thematig sy'n cwmpasu yr ardal leol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ofyn cwestiynau sylfaenol am ystyr a phwrpas bywyd ac effaith ac arwyddocad crefydd ar

syniadaeth grefyddol ar gymdeithas.

Mae cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen wedi'i selio'n gadarn ar y chwe maes dysgu ac yn rhoi rol weithredol i ddisgyblion yn eu dysgu. Mae ardaloedd mewnol dosbarth CS wedi eu datblygu'n addas i gwrdd a'r gofynion gyda'r ardal tu allan yn parhau i gael ei datblygu er mwyn cyfoethogi'r dysgu. Sicrheir fod profiadau buddiol a chyfleoedd cyson i ddiwallu anghenion a diddordeb pob disgybl boed yn blentyn ag anghenion neu'n fwy abl a thalentog *e.e. cymryd rhan weithredol ac arweinyddol mewn prosiect*. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau bod disgyblion o bob oedran yn caffael medrau llythrennedd a rhifedd perthnasol ac yn ymateb yn briodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd cenedlaethol, ac mae tystiolaeth yn llyfrau'r disgyblion fod yna gyfleoedd i ddisgyblion feithrin eu sgiliau llythrennedd a rhifedd drwy dasgau/gweithgareddau ym maes Addysg Grefyddol.

Mae addysg rhyw yn cael ei addysgu'n dda fel rhan o'n gwaith ABaCh, gwyddoniaeth a'r ysgol iach. Mae Polisi Cyfle Cyfartal yr ysgol ynghyd a'r Polisi Cydraddoldeb yn arwain at gyfleoedd gwerthfawr a mynediad i bob agwedd o'r cwricwlwm i bob plentyn. Mae'r polisiau'n weithredol ac rydym yn ymwybodol o'r angen i newid cynlluniau i anghenion disgyblion.

Cyfoethogir profiadau plant yn dda iawn trwy amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol ac mae'r ysgol yn manteisio ar bob gyfleoedd i weithio gyda'r gymuned gristnogol leol drwy ymeliadau gyda'r Eglwys yn Llanelltyd. Mae'r ysgol yn perfformio eu gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Eglwys leol yn flynyddol. Mae cymuned yr Eglwys yn trefnu gweithgaraeddau o hwyl ar gyfer y disgyblion yn Ffair Haf y pentref.

**Materion i gael sylw**

Gwneud defnydd o Radio Ysgol i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion fynegi temladau a barn am whanol bynciau crefyddol.
Sicrhau fod yna ddefnydd cyson o TGCh yn digwydd ar draws yr ysgol er mwyn datblygu dealltwriaeth a gallu disgyblion wrth ymdrin a phynciau ac agweddau crefyddol.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd? | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Cynhelir sesiynau addoli ar y cyd gwerthfawr yn ddyddiol ac anogir y plant i gyfrannu yn gyson ac yn ymateb yn ddeallus wrth wrando a thrafod materion o fewn y gwasanaeth. Ceir ymweliadau rheolaidd gan y gweinidog lleol a chriw yr Eglwys leol "Agor y Llyfr" sy'n cyfoethogi datblygiad ysbrydol ein disgyblion. Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch gan y disgyblion yn flynyddol, ar y naill yn y capel a'r Eglwys leol a rhennir y rhoddion gan y plant gydag aelodau hŷn y gymuned. Rydym hefyd yn cyfrannu'n flynyddol at weithgareddau ac elusennau megis Cymorth Cristnogol, Plant mewn Angen, Achub y plant a Thy Gobaith a Thy'r Eos.

Mae datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion wedi ei ymgorffori'n gadarn yn y cwricwlwm a gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae hon yn ysgol hapus lle mae cyfeillgarwch yn amlwg.
Mae'r ysgol yn hyrwyddo effeithiol y gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithrediadau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion yn dda trwy gynnal sesiynau cydaddoli bywiog ac effeithiol, gwasanaeth Diolchgarwch, gwasanaethau misol gan y Parch Angharad Griffiths a chyflwyniadau creadigol gan griw lleol "Agor y Llyfr." Rhoddir cyfleoedd cyson yn ein cynlluniau addysg

grefyddol iddynt edrych ar gwestiynau mawr bywyd, i gymharu a rhyfeddu, i ddeall arferion a phwysigrwydd credoau eraill, i ddeall eu rhan yn y darlun mawr ac i ddeall eu rôl yn nyfodol ein byd fel dinasyddion y dyfodol. Rhoddir pwyslais cyson a da i ddatblygu unigolion sy’n meddwl am eraill ac yn barod I chwarae eu rhan boed yn yr ysgol neu thu allan. Mae holl staff yr ysgol yn arwain drwy esiampl ac yn rhoi pwyslais priodol ar ddatblygiad moesol pob plentyn yn yr ysgol. Mae ymdeimlad o barch yn y berthynas glos sydd rhwng y staff a’r disgyblion yn cael ei feithrin drwy weithredoedd fel tegwch a gonestrwydd.

Cesglir arian at elusennau yn unol a phenderfyniadau'r disgyblion, anfonwyd arian casgliad y Cyfarfod Diolchgarwch eleni i Cymorth Cristnogol i brynu adnoddau i ffermwyr yn Sudan a chefnogir Diwrnod Trwynau Coch a Phlant mewn Angen.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Parhau i gynnal arferion da addoli ar y cyd gan sicrhau fod addoli ar y cyd yn digwydd mewn amrywiaeth o ffyrdd – ysgol gyfan, dobarthiadau unigol yn ddyddiol a pharhau i wahodd Agor y Llyfr i gynnig profiadau cyfoethog i’r disgyblion.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: Llion Dwyryd Huws (Pennaeth)

Dyddiad: 20.10.15